LGBC10M/2000

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 20fed RHAGFYR 2000 AM 10.30 YN NHŶ CARADOG, 1-6 ST. ANDREWS PLACE, CAERDYDD CF10 3BE

Yn bresennol:

Comisiwn	**Ysgrifenyddiaeth**
Yr Athro E Sunderland (Cadeirydd)	Mr R Knight (Ysgrifennydd)
Mr E F L FitzHugh (Dirprwy Gadeirydd)	Mr S Halsall
Mrs S Smith (Aelod)	Mr D Carr

1. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 21ain Tachwedd 2000.

1.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf yn amodol ar fân newidiadau.

2. Materion yn codi.

2.1 Holodd y Cadeirydd beth oedd y sefyllfa bresennol gydag Arolwg Polisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Nododd yr Ysgrifennydd nad oedd wedi'i gwblhau er i Edwina Hart AC ddweud ei bod wedi gobeithio y byddai'n barod erbyn diwedd Rhagfyr 2000.

2.2 Nododd yr Ysgrifennydd fod tocynnau awyren i Gaeredin wedi'u harchebu i'r Cadeirydd, Mrs Smith ac yntau ar gyfer y cyfarfod Cyswllt Rhyng Gomisiwn ar 13eg Chwefror 2001. Nododd y Dirprwy Gadeirydd ei fod wedi gwneud ei drefniadau ei hun i hedfan i Gaeredin o Fanceinion ar gyfer y cyfarfod.

3. Arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf ym Mhontyclun – draff cyntaf yr Adroddiad ar y Cynigion Terfynol.

3.1 Nododd Mr Halsall fod adroddiad y Cynigion Terfynol yn wahanol i adroddiad y Cynigion Drafft o ran alinio'r ffin i drosglwyddo eiddo Two Hoots o Rondda Cynon Taf i Fro Morgannwg. **Cytunwyd** ar adroddiad y Cynigion Terfynol. Byddai'r adroddiad nawr yn cael ei gyfieithu a'i gyhoeddi.

4. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Llangollen.

i) adroddiad ar gynnydd

4.1 Nododd yr Ysgrifennydd y bu'r cyfarfodydd diweddar a gynhaliwyd â swyddogion Cynghorau Sir Dinbych a Wrecsam yn gadarnhaol. Roedd Prif Weithredwr Sir Ddinbych, Mr Huw Thomas, wedi cytuno i ddarparu unrhyw wybodaeth fyddai ei hangen ar ymgynghorwyr ariannol y Comisiwn a hefyd i ddarparu cyflwyniad ysgrifenedig i'r Comisiwn erbyn wythnos gyntaf Chwefror 2001. Fodd bynnag, yr oedd hefyd wedi nodi

fod ei gyngor yn teimlo fod eu hachos wedi ei gyflwyno eisoes o ran arolwg o'r ffin yn Llangollen. Holodd hefyd am y diffiniad o'r term 'dichonoldeb' fel y'i defnyddiwyd yng nghyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dywedodd nad oedd ei gyngor yn hapus â fformat adroddiadau arolwg ffin blaenorol a gynhyrchwyd gan y Comisiwn gan eu bod yn teimlo bod rhai honiadau anghywir a wnaed mewn cynrychioliadau wedi'u cyflwyno fel ffeithiau yn yr adroddiadau.

4.2 Teimlai Mr Thomas y byddai arweinwyr Cyngor Sir Dinbych yn hoffi cwrdd â'r Comisiynwyr a chyflwyno cyflwyniad ysgrifenedig y Cyngor iddynt yn bersonol. Roedd yr Ysgrifennydd wedi ateb y byddai'n hysbysu aelodau'r Comisiwn o'r cais hwn yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn ac yn hysbysu'r Cyngor o'u penderfyniad. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiynwyr yn cwrdd ag aelodau Cyngor Sir Dinbych i dderbyn eu cyflwyniad a threfnwyd y cyfarfod hwn ar gyfer 2 Chwefror 2001. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn cysylltu â Chyngor Sir Dinbych i ofyn iddynt a fyddai'r dyddiad hwn yn gyfleus i aelodau'r cyngor gwrdd â'r Comisiynwyr.

4.3 Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam hefyd wedi addo darparu cyflwyniad ysgrifenedig i'r Comisiwn erbyn wythnos gyntaf Chwefror 2001. Teimlai Mrs Smith gan y byddai'r Comisiwn yn cwrdd ag aelodau o Gyngor Sir Dinbych i dderbyn eu cyflwyniad y dylent hefyd gynnig cwrdd ag aelodau o Gyngor Wrecsam. Gellid trefnu'r cyfarfod, os yn bosibl ar gyfer yr un dyddiad â'r cyfarfod ag aelodau Cyngor Sir Dinbych. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn cysylltu â Chyngor Wrecsam ac yn gofyn a fyddai aelodau'r cyngor yn dymuno cwrdd â'r Comisiynwyr ac, os felly, a fyddai 2 Chwefror 2001 yn ddyddiad cyfleus ar gyfer y cyfarfod.

ii) asesu tendrau

4.4 Nododd yr Ysgrifennydd fod y tendrau a gyflwynwyd i'r Comisiwn wedi'u hagor a'u harchwilio gan y bwrdd archwilio tendrau.

5. Arolwg Cymuned Cynffig – diweddariad llafar.

5.1 Nododd Mr Halsall ei fod wedi derbyn manylion gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o'r rhaniad asedau a rhwymedigaethau arfaethedig gan Gyngor Cymuned Cynffig. Fodd bynnag, roedd angen egluro'r manylion a gyflenwyd ac roedd wedi cysylltu â Chyngor Cymuned Cynffig i ofyn am wybodaeth bellach y gobeithiai y byddai'n ei derbyn cyn cyfarfod nesaf y Comisiwn.

6. Y Cynllun Gweithredol fel y'i diwygiwyd a'i gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (er gwybodaeth).

6.1 Nododd yr Ysgrifennydd fod y Cynllun Gweithredol wedi'i ddiwygio fel y gofynnwyd yng nghyfarfod diwethaf y Comisiwn ac wedi'i gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

7. Unrhyw Fusnes Arall.

7.1 Nododd y Dirprwy Gadeirydd ei fod wedi mynychu cynhadledd ar y Ddeddf Hawliau Dynol yn Llandudno. Teimlai mai'r maes o'r Ddeddf fyddai'n fwyaf tebygol o effeithio ar y Comisiwn fyddai recriwtio a chyflogi.

7.2 Holodd y Dirprwy Gadeirydd a oedd gan y Comisiwn bolisi mewn perthynas â staff yn cael mynediad i'r rhyngrwyd. Dywedodd Mr Halsall fod polisi ysgrifenedig wedi'i lunio ar gyfer y Comisiwn yn ymwneud â defnydd amhriodol o'r rhyngrwyd ac y rhoddwyd copïau o'r adroddiad hwn i aelodau'r staff. Fodd bynnag nid oedd unrhyw gyfyngiadau ffisegol mewn grym i atal staff rhag cael mynediad i ddeunydd ar y rhyngrwyd.

7.3 Nododd yr Ysgrifennydd fod problemau wedi codi'n ddiweddar gyda chyswllt rhyngrwyd y Comisiwn oedd yn arwain at filiau ffôn uchel ar gyfer galwadau rhyngrwyd. Ymddengys mai'r rheswm dros y broblem hon oedd fod llinell ISDN y Comisiwn yn parhau i fod ar agor wedi i ddefnyddwyr logio oddi ar y rhyngrwyd. Roedd achos yr anomaledd hwn yn anodd ei ganfod ac roedd ymchwiliadau'n mynd rhagddynt.

7.4 Dosbarthodd yr Ysgrifennydd bapur yn ymwneud ag amseru etholiadau llywodraeth leol.

7.5 Nododd yr Ysgrifennydd yr ystyriwyd ymhellach y posibilrwydd o recriwtio aelod ychwanegol o staff ar gyfer Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn. Credwyd yn wreiddiol y byddai hyn yn angenrheidiol oherwydd baich gwaith ychwanegol arolwg Llangollen. Fodd bynnag, wedi parhau â'r arolwg ymddengys na fyddai unrhyw fantais i benodi aelod ychwanegol o staff. Holodd y Dirprwy Gadeirydd a fyddai recriwtio aelod ychwanegol o staff yn galluogi i'r Comisiwn gynnal arolygon ffin Casnewydd/Tor-faen a Chwm Aman Uchaf yn gyflymach. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn archwilio'r posibilrwydd o gyflogi aelod ychwanegol o staff yn y ffordd hon.

7.6 Cyfeiriodd Mr Halsall at adroddiad Cynigion Drafft Llandudoch a gyhoeddwyd yn ddiweddar a thynnodd sylw at y ffaith mai hwn oedd y tro cyntaf i fapiau a rwymwyd i mewn i ddogfennau gael eu cynhyrchu gan y G.I.S. Ystyriodd fod lle i wella'r broses gynhyrchu ac y byddai'n ymchwilio i hynny.

7.7 Trefnwyd y cyfarfod Cyswllt Blynyddol sydd ar ddod gyda'r adran LGM ar gyfer 23 Chwefror 2001.

7.8 Newidiwyd dyddiad cyfarfod mis Mawrth y Comisiwn i 22 Mawrth 2001 am 10.30 am.